**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**15 Mehefin 2009**

**GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2008-2009**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn un o ofynion trefnau cofnodi'r Awdurdod, ac mae'n cynnwys gweithgarwch y trysorlys ar gyfer 2008-2009. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2008-2009, yn unol â gofynion y Cod Darbodus.

**GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2008-2009**

**Crynodeb o'r Strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer 2008-2009**

2 Rhagfynegodd Butlers, sy'n ymgynghorwyr Trysorlys yr Awdurdod, y byddai'r flwyddyn Ariannol 2008-2009 yn gweld rhagor o ansicrwydd ynglŷn â graddfeydd llog. Felly, mabwysiadodd yr Awdurdod ymagwedd ofalus tuag at strategaeth ei drysorlys, sef cymryd y dull mwyaf priodol o fenthyg, yn dibynnu ar y graddfeydd llog sydd ar gael ac ystyried y cyfle oedd ar gael i ailstrwythuro'r ddyled. Dylid buddsoddi unrhyw arian dros ben yn unol â rhagolygon diweddaraf y farchnad.

**Y Cefndir Economaidd ar gyfer 2008-2009**

3 Ni ragamcanwyd y cwymp mawr mewn cyfraddau llog; roedd y gyfradd llog sylfaenol yn 5.25% ar ddechrau'r flwyddyn ond erbyn ei diwedd roedd yn 0.5%. Cwympodd benthyca tymor byr y PWLB o

4.56% i 0.83%. Roedd y pryderon ynglŷn â'r sector bancio a methiant nifer o sefydliadau bancio yn creu anhawster gyda strategaethau buddsoddi awdurdodau lleol, oherwydd y flaenoriaeth oedd sicrhau diogelwch y cronfeydd. Mabwysiadodd lawer o awdurdodau lleol ymagwedd ofalus gan symud eu buddsoddiadau o fanciau a chymdeithasau adeiladu i Fanc Lloegr gan hepgor elw am ddiogelwch. Ni chafodd yr Awdurdod ei 'ddal' gan fethiant y sefydliadau bancio, ond mabwysiadodd ddull gofalus ynglŷn â'i fuddsoddiadau gan fuddsoddi tymor byr yn unig mewn sefydliadau bancio cyfradd uchel Prydeinig. O ran benthyg, manteisiodd yr Awdurdod ar y cwymp mewn cyfraddau llog a benthyciodd pan roedd y cyfraddau'n gymharol isel a manteisio hefyd ar y cyfle i ad-drefnu dyled.

## Gweithgarwch Benthyg

4 Mae benthyciadau'n cael eu trefnu er mwyn ariannu Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod Tân ac Achub. Trefnwyd benthyciadau newydd gwerth £3.5 miliwn yn 2008-2009 i ariannu'r rhaglen gyfalaf. Fodd bynnag, ystyrir bod £297,000 o'r benthyciadau newydd yn flaen fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf yn 2009-2010.

## Ad-drefnu

5 Yn ystod y flwyddyn ad-drefnwyd £7.9 miliwm o fenthyciadau. Roedd cyfraddau llog y benthyciadau a gliriwyd rhwng 3.85% a 5%. Trefnwyd y benthyciadau newydd o £7.9 miliwn ar gyfraddau llog rhwng 0.92% a 1.24%. Derbyniwyd disgownt o £191,000 ac mae'r arbedion ar daliadau llog yn £238,000 i'r Awdurdod.

## Buddsoddiadau

6 Mae polisi buddsoddi'r Awdurdod yn cael ei bennu gan Ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei weithredu yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod 15 Rhagfyr 2003. Roedd y gweithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd, ac ni chafodd yr Awdurdod unrhyw drafferthion hylifedd.

7 Buddsoddwyd yr holl arian oedd dros ben yn y farchnad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran yr Awdurdod Tân. Balans buddsoddiadau'r flwyddyn ar gyfartaledd oedd £1,500,000 a balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2009 oedd £1,650,000 o'i gymharu â £3,070,000 ar 31 Mawrth 2008.

8 Mae'r gostyngiad yn y Darpariaethau sydd gan yr Awdurdod a'r newid i gyllido Cynllun Pensiwn Dynion Tân wedi arwain at lai o arian ar gael i'w fuddsoddi, ac ynghyd ag effaith y gostyngiad mewn cyfraddau llog, roedd y llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau yn £107,000 yn erbyn cyllideb o £200,000.

## DANGOSYDDION DARBODUS

9 Yn unol â'r Côd Darbodus, mae gofyn i'r Awdurdod roi gwybod am wir ddangosyddion darbodus ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr y dangosyddion darbodus gorfodol. Mae rhai o'r dangosyddion hyn naill ai'n rhoi trosolwg neu derfyn ar weithgarwch trysorlys, a dangosir y rhain isod:

| | **2009 Gwir £'000** | **2009 Dangosydd Gwreiddiol £'000** |
|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca | 15,013 | 18,084 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 14,716 | 18,084 |

10 Mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf (Capital Financing Requirement – CFR) yn dangos angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyg i ddiben cyfalaf, ac mae hyn yn ffordd o fesur sefyllfa dyled y Cyngor fel y dangosir uchod. Er mwyn sicrhau y bydd gwir fenthyca buddsoddiadau dros y tymor canolig ar gyfer cyfalaf yn unig, ni ddylai'r benthyg, ar wahân i fenthyg tymor byr, fod yn fwy na'r CFR ar gyfer 2008-2009 ynghyd â'r newidiadau disgwyliedig i'r CFR yn ystod 2009-2010 a 2010-2011. Mae'r tabl uchod yn amlygu'r ffaith fod sefyllfa benthyg net yr Awdurdod wedi bod £297,00 mil yn fwy na'r CFR ar gyfer 2008-2009, ac mae'r benthyg ychwanegol hwn yn swm sydd wedi'i fenthyg ymlaen llaw ar gyfer 2009-2010.

11 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r "Terfyn Benthyca Fforddiadwy", sydd yn ofynnol dan adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl isod yn dangos fod yr Awdurdod wedi cadw ei fenthyca gros o fewn y Terfyn Awdurdodedig yn ystod 2008-2009.

12 Y Ffin Weithredol yw sefyllfa benthyg ddisgwyliedig yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pan fo'r gwir sefyllfa o dan, neu dros y Ffin yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n uwch na'r Terfyn Awdurdodedig.

| | **2008/09 £'000** |
|---|---:|
| Dangosydd Gwreiddiol – Terfyn a Ganiateir | 21,084 |
| Dangosydd Gwreiddiol – Ffin Weithredol | 18,084 |
| Y mwyafswm o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 15,013 |
| Yr isafswm benthyca yn ystod y flwyddyn | 11,654 |

**Y FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO, RISG A PHERFFORMIAD**

13 Mae gweithgarwch rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cael ei reoli gan nifer o godau, statudau a chanllawiau proffesiynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf), sy'n darparu'r pwerau i fenthyg a buddsoddi yn ogystal â rhoi cyfyngiadau a therfynau ar y gweithgarwch hwn;

- Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru osod terfynau un ai ar yr Awdurdod neu'n genedlaethol ar bob awdurdod lleol, gan gyfyngu ar y benthyca a ganiateir (er na wnaed unrhyw gyfyngiadau yn 2008-2009);

- Mae'r Cyfrwng Statudol – (Statutory Instrument SI) 3239 (W319) 2003, diwygiedig, yn datblygu ac yn rheoli pwerau o fewn y Ddeddf

- Mae'r Cyfrwng Statudol yn mynnu bod yr Awdurdod yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch benthyca gan ystyried Côd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol;

- Mae'r Cyfrwng Statudol hefyd yn mynnu bod yr Awdurdod yn cymryd gofal am holl weithgarwch y trysorlys gan ystyried Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus;

- Dan y Ddeddf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Canllaw Buddsoddi i strwythuro a rheoli gweithgarwch buddsoddi'r Awdurdod.

14 Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddio perthnasol uchod sy'n rhoi terfyn ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgarwch rheoli trysorlys. Yn benodol, mae'r ffaith ei fod wedi mabwysiadu a gweithredu'r Côd Darbodus a'r Côd Ymarfer ar gyfer Rheoli Trysorlys yn golygu bod ei wariant cyfalaf yn ddoeth, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac mae ei arferion trysorlys yn dangos agwedd risg isel.

**ARGYMHELLION**

15 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

(i) cymeradwyo'r gwir Ddangosyddion Darbodus 2008-2009; a

(ii) nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2008-2009.

***ATODIAD A***

| | | 2008/09 Gwir | 2008/09 Dangosydd Gwreiddiol |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 5,651,189 | 6,314,000 |
| 2 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 14,715,586 | 18,084,000 |
| 3 | Benthyca | 15,013,428 | 18,084,000 |
| 4 | Buddsoddiadau | 1,650,000 | 2,800,000 |
| 5 | Terfyn a Ganiateir | 15,013,428 | 21,084,000 |
| 6 | Ffin Weithredol | 15,013,428 | 18,084,000 |
| 7 | Cymhareb y Costau Ariannu â Llif Refeniw Net | 4.67% | 5.77% |
| 8 | Effaith gynyddol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol | 113,023 | 143,378 |
| 9 | Benthyciadau Cyfradd Llog Sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 100% | 55% - 100% |
| 10 | Benthyciadau Cyfradd Amrywiol fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 0% | 0% - 45% |
| 11 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 29.28% | 0% - 40% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 39.39% | 0% - 40% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 16.65% | 0% - 50% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 0% | 0% - 75% |
| | 10 mlynedd a hirach | 14.68% | 0% - 100% |
| | | | |